

NECROPOLIS GLASGOW

Mae Necropolis Glasgow yn sefyll ar dir a elwir The Craigs a brynwyd gan Dŷ'r Marsiandwyr, Glasgow yn 1650, ac fe ddaeth yn barc cyhoeddus am bron i 200 mlynedd. Mae'r cysyniad o ardd sy'n fynwent yn seiliedig ar fynwent Pere la Chaise wedi i un o aelodau'r Tŷ Marsiandwyr ymweld â Pharis. Agorodd Necropolis Glasgow yn swyddogol yn 1833.

Bwriad y tir claddu oedd i fod yn rhyngengwadol, a chladdwyd y person cyntaf yno yn 1832; Iddew o'r enw Joseph Levi, yn emydd a fu farw o dynestri. Fe gladdwyd ef yn nhir caeedig yr Iddewon. Y claddu Cristnogol cyntaf a ddigwyddodd yn 1833 oedd claddedigaeth Elizabeth Miles, llysfam yr Arolygydd, George Mylne.

Wedi 1860, y nod oedd ymestyn y Necropolis ar dir y chwarel Ladywell, ac yn 1877 ac 1892/3, fe adeiladwyd yr estyniad terfynol i'r gogledd ac i'r dde ddwyrain gan ddyblu maint y fynwent. Mae'r Necropolis bellach yn gorchuddio 37 erw o dir. Mae dros 50,000 o gladdedigaethau wedi cymryd lle yn y Necropolis, mae yna 3,500 o henebion ac mae'r tir a ymddengys yn fannau agored o wyrddni yn feddi heb ei farcio.

Yn 1877 newidiodd Molendinar Burn ei chwrs. Y mae'n debyg bod y nant neu afon fechan yma lle pysgotodd Sant Mungo am eog, nawr o dan ddaear ac yn rhedeg i mewn i'r Clyde

Roedd y Necropolis yn un o'r ychydig o fynwentydd oedd yn cadw cofnod o'r meirw, gan gynnwys manylion am ei phroffesiwn, oedran, rhyw ac achos ei marwolaeth. Ym mis Gorffennaf, 1878 mae'r llyfr ymwelwyr yn dangos bod 13,733 o bobl wedi ymweld â'r Necropolis, Glasgow - 12,400 o rheini'n dinasyddion a 1,333 yn ymwelwyr.

Yn 1966, rhoddodd Tŷ'r Marsiandwyr £50,00 i Gyngor Dinas Glasgow i gynnal a chadw'r Necropolis. Bellach, dim ond y garreg fedd sy'n bodoli, oherwydd bod yr ardaloedd gwyrdd yn haws i'w chynnal.

Mae henebion yma a ddyluniwyd gan bensaeri a cherflunwyr mawr 'u hamser, gan gynnwys Alexander 'Groeg' Thomson, Charles Rennie Mackintosh a Jt Rothead mewn bob mathau o arddulliau pensaernïol. Nid yn unig yr entrepreneuriaid blaenllaw a chyfoethog oedd yn cael ei chladdu yma. Fe godwyd henebion trwy danysgrifiad cyhoeddus ar gyfer dinasyddion na fyddai fel arall wedi gall gael ei gladdu yma.

Necropolis Glasgow oedd y fynwent ardd gyntaf i'w agor, ond fe ddilynyd gan eraill gan gynnwys Sighthill yn 1890, Necropolis Y De yn 1840, a'r Necropolis dwyreiniol yn 1847. Agorodd y gymuned Gatholig Rufeinig mynwent yr Eglwys Santes Fair yn 1839 yn Carlton, a thir chladdu Sant Peter yn Dalberth yn 1851.

Arweiniodd deddf tir claddu 1855 yr Alban at gau mynwentydd eglwys orlawn. Y tir claddu cyntaf oedd tir claddu ar gyrion y ddinas; Craigton yn 1873, Cathcart yn 1878, Lambhill (85 erw) yn 1881, Western Necropolis yn 1882 a St Kentiger yn 1882 (gogledd-orllewin y ddinas). Adeiladwyd amlogfa gyntaf yr Alban yn Glasgow, ar dir y Western Necropolis yn 1895